
"un Cyngor yn cydweithio â'n gilydd i wella bywydau"




# CYNLLUN CORFFORAETHOL 2018-23 adolygiad ar gyfer 2021-22

Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

# Cyflwyniad

## Croeso i gynllun corfforaethol diwygiedig y Cyngor ar gyfer 2021-22

Croeso i gynllun corfforaethol diwygiedig y Cyngor ar gyfer 2021-22 Heb os, rydym yn byw ac yn gweithio yn yr un o'r amseroedd mwyaf heriol ac anodd yr ydym erioed wedi gorfod ei wynebu.

Pan edrychwn yn ôl ar 2020, bydd yn cael ei gofio'n bennaf am bandemig COVID-19 - ei effaith greulon ar iechyd pobl, y ffaith i ni golli rhai o'n hanwyliaid, ffrindiau, cymdogion a chydweithwyr, yr effaith hynod gyfyngol ar ein bywydau o ddydd i ddydd, a'r ffordd y mae wedi effeithio ar sut mae'r Cyngor wedi gallu cynnal ei fusnes.

Er gwaetha'r holl heriau a ddaeth yn sgil 2020 a heriau pellach nad ydym eto wedi'u hwynebu, daw cyfleoedd hefyd y bydd angen i ni eu cofleidio fel sefydliad wrth i'r ansicrwydd ynghylch effeithiau COVID-19 barhau. Mae ein staff, partneriaid ac aelodau o'r gymuned wedi dangos gwytnwch a phenderfyniad mawr yn ystod y pandemig hwn. Rydym hefyd wedi profi natur bwerus gweithio'n agosach mewn partneriaeth â sefydliadau a grwpiau cymunedol eraill, felly mae angen i ni sicrhau y gall elfennau gorau hyn barhau a thyfu wrth i ni symud ymlaen.

Bydd angen i ni ganolbwyntio ar adfer gwasanaethau, cefnogi cymunedau ac yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas, yn ogystal â gwneud popeth o fewn ein gallu i helpu ein heconomi leol i wella. Mae angen i ni barhau i ymgysylltu â phobl leol ac adeiladu a datblygu egwyddorion cyd-ddylunio a chyd-gynhyrchu gyda'n cymunedau lleol, ac asesu ac adolygu'n barhaus y ffordd orau o gyflawni ein busnes a darparu gwasanaethau, yn seiliedig ar amgylchiadau sy'n newid. Mae gweithio ystwyth a gweithio gartref yn amlwg yn feysydd y bydd angen i ni barhau i fuddsoddi ynddynt a'u cofleidio lle bo hynny'n briodol.

Ysgrifennwyd y cynllun corfforaethol hwn ar adeg o ansicrwydd a newid mawr ac mae canlyniad yr ymgynghoriad diweddar 'Addas ar gyfer y Dyfodol' wedi ein helpu i bennu lle y dylem ganolbwyntio ein hymdrechion wrth symud ymlaen. Rydym yn gwybod bod pobl wedi gwerthfawrogi cael mynediad at gyfleusterau cymunedol, gan gynnwys parciau a bod yn yr awyr agored, eu bod yn poeni am yr economi a'r effaith ar fusnesau a chyflogaeth. Rydym yn cydnabod yr effaith barhaol y bydd hyn yn ei chael ar lesiant plant a phobl ifanc a'u haddysg yn ogystal â llesiant meddyliol ein holl breswylwyr. Mae pryderon hefyd am effaith COVID-19 ar rai o'n cymunedau mwyaf difreintiedig, y rhai sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas, gan gynnwys ein henoed ac ar y gymuned BAME.

Byddwn yn parhau i fod yn uchelgeisiol yn ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol ac mae ein gweledigaeth o 'Un Cyngor yn cydweithio gyda'i gilydd i wella bywydau' yn parhau i fod yn ffocws sydd mor bwysig i ni ag erioed. Mae ein tri amcan llesiant yn parhau i fod yn berthnasol i'r gwaith rydyn ni'n ei wneud a'r hyn rydyn ni am ei gyflawni.

Nid yw'r cynllun corfforaethol hwn yn ceisio cynnwys pob gwasanaeth y mae'r Cyngor yn ei ddarparu neu y bydd yn ei ddarparu yn ystod y blynyddoedd nesaf. Ei ddiben yw nodi ein hamcanion llesiant; y canlyniadau hirdymor yr ydym am eu cyflawni ar gyfer y fwrdeistref sirol ac ar gyfer y bobl y mae'n fraint gennym eu gwasanaethu. Rydym eisiau cyfrannu at rywle y bydd pobl yn caru byw, gweithio, astudio a gwneud busnes ynddo. Rhywle lle mae pobl yn meddu ar y sgiliau a'r cymwysterau y maent eu hangen i wella eu cyfleoedd bywyd, lle maent yn mwynhau iechyd da ac ymdeimlad o lesiant ac annibyniaeth. Bydd angen i ni flaenoriaethu lle rydym yn gwario ein harian os ydym am

wneud defnydd gwell o'n hadnoddau. Bydd yn golygu buddsoddi yn y pethau hynny sy'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf i ganlyniadau pobl leol. Mae cydweithio gwell a mwy deallus gyda'r sector preifat, gyda phartneriaid sector cyhoeddus eraill, a chyda'r trydydd sector yn hanfodol, yn ogystal ag ymgysylltiad parhaus â'n dinasyddion. Gyda hynny'n gefndir i ni, bydd rhaid i ni fod yn onest gyda'n cymunedau a'n partneriaid gan ddweud na all y Cyngor bellach ddarparu'r holl wasanaethau a oedd yn arfer ei wneud ar un adeg, nac i'r un lefelau a oedd yn gallu ei wneud o'r blaen. Fodd bynnag, rydym yn parhau i fod yn frwd dros wneud gwell defnydd o'n hadnoddau, dros gefnogi a diogelu pobl fwyaf bregus ein cymunedau, a thros adeiladu bwrdeistref sirol sy'n gadarn o safbwynt economaidd ac sy'n bodloni anghenion ein dinasyddion yn y dyfodol.

Mae'r cynllun hwn yn cynrychioli ein nodau a'n hymrwymiadau i'n dinasyddion a'n cyfraniad i saith nod llesiant Cymru fel y'u hamlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Bydd y cynllun yn parhau i gefnogi ac ysgogi ein hegwyddorion cynaliadwyedd ond bydd hefyd ar yr adeg heriol hon yn helpu i ganolbwyntio ein hymdrechion ar y meysydd pwysicaf i gadw'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu yn ddiogel.

Mae llawer wedi newid yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a bu'n rhaid gwneud penderfyniadau anodd a byddant yn parhau i gael eu gwneud. Rydym wedi ymateb yn hyderus trwy roi diogelwch a lles ein preswylwyr yn gyntaf bob amser a byddwn yn parhau i wneud hynny. Byddwn yn parhau i wneud ein gorau glas ac yn gweithio gyda'n partneriaid i gyflawni'r hyn yr ydym wedi'i nodi yn y cynllun corfforaethol hwn a chyflawni'r canlyniadau gorau oll yn yr adegau anodd hyn i'n cymunedau.

Croesawn unrhyw sylwadau, ac mae'r dulliau o gynnig adborth i'w gweld yng nghefn yr adroddiad hwn.


.



Cynghorydd Huw David
Arweinydd y Cyngor

Mark Shephard
Prif Weithredwr





# Cynnwys


Cipolwg ar Fwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr..........5

Ein gweledigaeth, egwyddorion a gwerthoedd.............6

Amcanion Llesiant ........................................................8

Amcan Llesiant 1 ........................................................11

Amcan Llesiant 2 ........................................................15

Amcan Llesiant 3 ........................................................19

Rheoli ein Cyllideb ......................................................24

Democratiaeth a Phartneriaeth ...................................29

Gweithio gydag Eraill ..................................................30

Adborth ......................................................................31

# Cipolwg ar Fwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr



| | |
|---|---|
| Poblogaeth | 147,049 |
| Maint | 98.5 milltir sgwâr |
| Aelwydydd | 62,814 |
| Pris Tŷ ar Gyfartaledd | £155,595 (Mynegai Prisiau Tai'r Deyrnas Unedig: Ebrill 2020) |
| Busnesau Gweithredol | 4,095 |
| Pobl mewn Cyflogaeth | 76.2% (Mehefin 2020) |
| Cyflog ar Gyfartaledd (canolrifol) | £27,398 (Cyfartaledd Cymru £28,168) |

## Cynrychioliad

| | |
|---|---|
| Wardiau | 39 |
| Cynghorwyr | 54 |
| Aelodau Senedd Etholaethol | 2 |
| Aelodau Senedd Rhanbarthol | 4 |
| Aelodau Seneddol | 2 |

## Digartrefedd

| | |
|---|---|
| Hostelau digartrefedd | 1 |
| Llochesi trais yn y cartref | 2 |
| Darpariaeth cysgu ar y stryd | 3 |
| Cynlluniau llety â chymorth a dros dro | 9 |

## Addysg

| | |
|---|---|
| Ysgolion cynradd (ag eithrio Cyfrwng Cymraeg a Ffydd) | 39 |
| Ysgolion uwchradd (ag eithrio Cyfrwng Cymraeg a Ffydd) | 7 |
| Ysgolion arbennig | 2 |
| Uned cyfeirio disgyblion | 1 |
| Ysgolion ffydd | 6 |
| Ysgolion Cyfrwng Cymraeg | 5 |

## Hamdden a Llesiant

| | |
|---|---|
| Pyllau Nofio | 5 |
| Canolfannau bywyd a chyfleusterau chwaraeon | 9 |
| Llyfrgelloedd | 11 |

## Gofal Cymdeithasol

| | |
|---|---|
| Cartrefi Gofal Ychwanegol | 3 |
| Uned Ail-alluogi | 1 |
| Canolfan Adnoddau ar gyfer pobl ag anghenion cymhleth | 1 |

Rydym yn datblygu, rheoli a chynnal **280 hectar** o ardaloedd agored, gan gynnwys ardaloedd chwarae plant, caeau chwaraeon, comins, ymylon priffyrdd, tirweddau a nodweddion garddwriaethol.

## Cyfanswm Incwm y Cyngor (2021-22)



| | |
|---|---|
| Y Dreth Gyngor | £86.765m |
| Ardrethi Annomestig | £48.787m |
| Grant Cynnal Refeniw (Llywodraeth Cymru) | £163.404m |
| Cyllid arall (ag eithrio ffioedd a thaliadau) | £136.430m |
| **Cyfanswm Incwm Gros** | **£435.386m** |

Mae gennym **4,303** o staff cyfwerth â llawn amser sy'n darparu ystod lawn o wasanaethau allweddol i dros 147,000 o bobl, sy'n cynnwys:

Addysg ac ysgolion, gofal cymdeithasol, diogelu ein plant ac oedolion mwyaf bregus; cyfiawnder ieuenctid, cynllunio a rheoli adeiladu, cefnogaeth tai, cynnal a chadw priffyrdd a thrafnidiaeth gyhoeddus, gwastraff ac ailgylchu, diogelu a glanhau strydoedd, parciau, diogelwch adnoddau naturiol ac amgylcheddol, ardaloedd chwarae, hylendid bwyd, trwyddedu, archwilwyr iechyd a diogelwch, casglu refeniw a gweinyddu budd-daliadau, etholiadau, chwaraeon, y celfyddydau a llyfrgelloedd, cefnogi cyflogaeth, busnes a thwristiaeth, digwyddiadau arbennig a gwyliau.

# Ein gweledigaeth, egwyddorion a gwerthoedd

## Ein Gweledigaeth

Wrth lunio'r cynllun corfforaethol hwn, mae'r Cyngor wedi ystyried y math o sefydliad yr hoffai fod. Ein gweledigaeth yw ymddwyn fel

**"Un Cyngor yn gweithio gyda'i gilydd i wella bywydau".**

Byddwn yn gwneud hyn drwy ddarparu ein hamcanion llesiant. Bydd cyflawni hyn yn gwella ansawdd bywyd pawb sy'n byw ac yn gweithio yn y fwrdeistref sirol. Mae'r cynllun hwn yn cynrychioli ein nodau a'n hymrwymiadau i'n dinasyddion ac yn nodi ein cyfraniad i saith nod llesiant Cymru fel yr amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Golyga hyn y byddwn yn dod yn awdurdod lleol llai o faint, mwy hyblyg ac arloesol sy'n gweithio gyda phartneriaid a chymunedau lleol i greu dyfodol lle bydd gan drigolion fynediad at wasanaeth mwy ymatebol sydd wedi ei deilwra. Bydd hefyd yn golygu bod gan drigolion fwy o gyfrifoldeb wrth sicrhau bod hynny'n digwydd, i wella eu gwytnwch eu hunain ac ar gyfer y gymuned gyfan.

## Ein Hegwyddorion

Mae sawl egwyddor allweddol yn ategu sut yr ydym yn gweithio. Maent yn pwysleisio pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth gyda'n dinasyddion, ein cymunedau a sefydliadau eraill i ddatblygu a darparu gwasanaethau cynaliadwy. Gyda'n gilydd, byddwn yn nodi ac yn bodloni anghenion lleol hyd gorau ein gallu:

- I gefnogi cymunedau a phobl i greu eu datrysiadau eu hunain a lleihau'r ddibyniaeth ar y Cyngor.
- Canolbwyntio ar yr adnoddau sy'n diflannu ar gymunedau ac unigolion sydd â'r anghenion mwyaf.
- Defnyddio gwybodaeth dda gan ddefnyddwyr gwasanaeth a chymunedau i lywio'r penderfyniadau.
- Annog a datblygu capasiti ymysg y trydydd sector i nodi ac ymateb i anghenion lleol.
- Peidio â gadael i ansicrwydd ynghylch dyfodol gwasanaethau cyhoeddus rwystro cydweithrediad ystyrlon a phragmatig gyda chyrff sector cyhoeddus eraill.
- Gweithio fel un Cyngor ac atal gwahanol rannau o'r sefydliad rhag datblygu sawl proses neu ddulliau sy'n wahanol yn ddiangen.
- Trawsnewid y sefydliad a sawl gwasanaeth i ddarparu gostyngiadau cyllidebol ariannol yn ogystal â gwelliannau.

Mae'r egwyddorion hyn yn pwysleisio pwysigrwydd sefydliadau eraill wrth ddarparu gwasanaethau i fodloni anghenion lleol. Mae gan y Cyngor hanes o weithio gyda'r trydydd sector, y sector nid er elw a'r sector preifat, ac mae pob un eisoes yn darparu rhai gwasanaethau ar gyfer y Cyngor. Byddwn yn parhau i adeiladu ar y dull hwn drwy gydol oes y cynllun.

Mae'r egwyddorion hyn, ynghyd â gwerthoedd y Cyngor, yn cefnogi'r egwyddor datblygu cynaliadwy fel y diffinnir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae datblygu cynaliadwy yn ymwneud â gwella'r ffordd y gallem gyflawni ein llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol drwy ganolbwyntio ar yr hirdymor, atal, integreiddiad, cydweithrediad a chyfranogiad. Bydd yn ategu popeth yr ydym yn ei wneud ac yn ein helpu i wneud y fwrdeistref sirol yn lle arbennig i bobl fyw, gweithio ac astudio ynddi ac ymweld â hi.

## Ein Gwerthoedd

Mae'r rhain yn cynrychioli'r hyn yr ydym yn sefyll drosto ac yn llunio ein ffordd o weithio:

**Teg** - ystyried anghenion a sefyllfa pawb
**Uchelgeisiol**- ceisio gwella'r hyn yr ydym yn ei wneud yn barhaus ac anelu at ragoriaeth
**Canolbwyntio ar y dinasyddion** - cofio ein bod yma i wasanaethu ein cymunedau lleol
**Effeithlon** - darparu gwasanaethu sy'n rhoi gwerth am arian

Mae ein hegwyddorion, ynghyd â'n gwerthoedd, yn cefnogi'r egwyddor datblygu cynaliadwy fel y diffinnir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae datblygu cynaliadwy yn ymwneud â gwella'r ffordd y gallem gyflawni ein llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol drwy ganolbwyntio ar yr hirdymor, atal, integreiddiad, cydweithrediad a chyfranogiad. Bydd yn ategu popeth yr ydym yn ei wneud ac yn ein helpu i wneud y fwrdeistref sirol yn lle arbennig i bobl fyw, gweithio ac astudio ynddi ac ymweld â hi.

# Amcanion llesiant

Diben Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn gwneud popeth y gallant i gyfrannu at wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.


Mae'r Ddeddf yn cyflwyno saith nod llesiant hirdymor, yn gosod egwyddor datblygu cynaliadwy, ac yn diffinio pum ffordd o weithio y bydd angen i gyrff cyhoeddus eu mabwysiadu i ddangos eu bod wedi dilyn yr egwyddor datblygu cynaliadwy.

Mae'r ddogfen hon yn nodi nifer fechan o amcanion hirdymor pwysig yr ydym eisiau eu cyflawni. Dyma ein hamcanion llesiant dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Y rhain hefyd yw ein hamcanion gwella dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Wrth osod ein hamcanion llesiant, rydym yn nodi'r hyn yr ydym yn ceisio ei gyflawni a pham eu bod yn bwysig. Mae manylion pellach ar gael yn ein datganiad llesiant 2021-22 https://www.bridgend.gov.uk/media/10435/datganiad-llesiant-2021-i-2022.pdf

Mae ein hamcanion llesiant wedi eu hintegreiddio, sy'n sicrhau ein bod yn gweithio gyda'n gilydd i gyflawni canlyniadau a rennir. Mae'r cynllun hwn yn nodi'r camau y byddwn yn eu cymryd ac yn adnabod y meysydd blaenoriaeth i wthio gwelliannau. Gellir dod o hyd i fanylion ynghylch sut yr ydym wedi gwneud cynnydd tuag at yr amcanion hyn yn ein Hadroddiad Blynyddol 2019-20 https://www.bridgend.gov.uk/media/9652/adroddiad-blynyddol-2019-i-2020.pdf

## Ein hamcanion llesiant




Yn y cynllun hwn, rydym wedi gosod ymrwymiad y Cyngor i'r nodau llesiant ac wedi ymgorffori egwyddorion datblygu cynaliadwy'r Ddeddf. Rydym wedi sicrhau ein bod yn ystyried yr effaith bosib ar bobl sy'n byw yng Nghymru, heddiw ac yn y dyfodol, wrth wneud penderfyniadau.

## Ein cyfraniad i'r nodau llesiant

Mae'r adroddiad hwn yn nodi cyfraniad ein hamcanion llesiant i'r saith nod llesiant. Nodir y rhain isod.

| | Amcan Llesiant | | |
|---|---|---|---|
| Nod Llesiant | Cefnogi economi gynaliadwy lwyddiannus | Helpu cymunedau a phobl i fod yn iachach ac yn fwy gwydn | Gwell defnydd o adnoddau |
| Cymru lewyrchus | √ | | √ |
| Cymru wydn | | | √ |
| Cymru iachach | √ | √ | √ |
| Cymru fwy cyfartal | √ | √ | √ |
| Cymru llawn cymunedau cydlynol | √ | √ | √ |
| Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | √ | √ | |
| Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang | √ | | √ |

## Sut ydym yn defnyddio'r pum ffordd o weithio

Yn ychwanegol i'r saith nod llesiant tymor hir, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod yr egwyddor datblygu cynaliadwy, ac yn diffinio'r pum ffordd o weithio y bydd angen i gyrff cyhoeddus eu mabwysiadu i ddangos eu bod wedi dilyn yr egwyddor datblygu cynaliadwy. Y pum ffordd o weithio yw:

**Hirdymor** - Y pwysigrwydd o gydbwyso anghenion tymor byr â'r angen i ddiogelu'r gallu i fodloni anghenion hirdymor hefyd.

**Atal** - Rydym yn bod yn rhagweithiol o ran adnoddau i atal problemau rhag codi neu waethygu.

**Integreiddiad** - Ystyried sut gall ein hamcanion llesiant effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.

**Cydweithrediad** - Ymddwyn mewn cydweithrediad ag unrhyw berson/sefydliad neu rannau gwahanol o'r awdurdod lleol i ddarparu ein hamcanion llesiant.

**Cyfraniad** - Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardaloedd yr ydym yn eu gwasanaethu.

Rydym wedi ymgorffori'r pum ffordd o weithio, fel y nodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn ein hegwyddorion.

| 5 Ffordd o Weithio | Hirdymor | Atal | Integreiddio | Cydweithrediad | Cyfraniad |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ein Hegwyddorion** | | | | | |
| I gefnogi cymunedau a phobl i greu eu datrysiadau eu hunain a lleihau'r ddibyniaeth ar y Cyngor. |  |  | |  |  |
| Canolbwyntio ar yr adnoddau sy'n diflannu ar gymunedau ac unigolion sydd â'r anghenion mwyaf. |  | | |  |  |
| Defnyddio gwybodaeth dda gan ddefnyddwyr gwasanaeth a chymunedau i lywio'r penderfyniadau. |  | |  |  |  |
| Annog a datblygu capasiti ymysg y trydydd sector i nodi ac ymateb i anghenion lleol. |  |  | |  |  |
| Peidio â gadael i ansicrwydd ynghylch dyfodol gwasanaethau cyhoeddus rwystro cydweithrediad ystyrlon a phragmatig gyda chyrff sector cyhoeddus eraill. |  | |  |  | |
| Gweithio fel un Cyngor ac atal gwahanol rannau o'r sefydliad rhag datblygu sawl proses neu ddulliau sy'n wahanol yn ddiangen. |  | |  |  | |
| Trawsnewid y sefydliad a sawl gwasanaeth i ddarparu gostyngiadau cyllidebol ariannol yn ogystal â gwelliannau. |  | | |  |  |

## Camau a thargedau

Rydym yn adolygu ein camau (ymrwymiadau) a'n targedau bob blwyddyn i sicrhau ein bod yn parhau i gymryd camau i gyflawni ein hamcanion llesiant. Mae'r heriau digynsail a gyflwynwyd gan y pandemig COVID-19 byd-eang yn ystod blwyddyn ariannol 2020-21 wrth reswm wedi golygu bod llawer o'r ymrwymiadau a'r dangosyddion perfformiad a nodwyd yn wreiddiol yng nghynllun y llynedd wedi cael eu heffeithio wrth i heriau a blaenoriaethau newydd sylweddol ddod i'r amlwg, yn enwedig ynghylch iechyd y cyhoedd. Mae hyn wedi golygu bod y targedau a osodwyd ar gyfer y llynedd mewn sawl achos wedi dod yn ddiystyr neu na ellir eu casglu yn y ffordd a ragwelwyd. Mae hyn yn ei dro wedi golygu bod gosod dangosydd perfformiad realistig ar gyfer 2021-22 wedi dod yn anoddach mewn rhai meysydd blaenoriaeth. Felly mae rhai targedau wedi'u dileu ac rydym wedi penderfynu mesur a sefydlu llinell sylfaen newydd. Lle mae hyn yn berthnasol, mae'r rhain wedi'u lliwio’n llwyd. Y gobaith yw, yn ystod 2021-22, y byddwn yn gallu dychwelyd at rywbeth sy'n agosáu at normalrwydd ac o ganlyniad byddwn yn gallu mesur a rheoli perfformiad yn y ffordd a wnaed yn hanesyddol ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

# Amcan Llesiant 1

# Cefnogi economi gynaliadwy lwyddiannus

Mae hyn yn golygu y byddwn yn cymryd camau i wneud y fwrdeistref sirol yn lle ardderchog i wneud busnes, i bobl fyw, gweithio, astudio ac ymweld, ac i sicrhau bod ein hysgolion yn canolbwyntio ar godi'r sgiliau, cymwysterau a dyheadau ar gyfer pawb yn y fwrdeistref sirol.

## Ein nodau llesiant

1. I gefnogi pobl leol wrth iddynt ddatblygu sgiliau a manteisio ar gyfleoedd i lwyddo.
2. Creu amodau ar gyfer twf a menter.
3. Creu canol trefi a chymunedau sy'n gwella ansawdd bywyd dinasyddion.

## Pam mae'r rhain yn bwysig

Mae ein dinasyddion wedi dweud wrthym fod economi leol a bywiog yn un o'u prif flaenoriaethau. Rydym eisiau adeiladu bwrdeistref sirol lle mae gan bobl fwy o gyfleoedd i sicrhau swyddi difyr, datblygu gyrfaoedd a gwella incwm ac amgylchiadau eu teuluoedd.

Wrth ein helpu i gyflawni ein hamcan o economi gynaliadwy lwyddiannus, mae'r Cyngor, ynghyd â phartneriaid allweddol, yn gweithio ar sawl prosiect a fydd yn darparu'r canlyniadau i helpu Pen-y-bont ar Ogwr i ffynnu yn yr hirdymor. Mae’r rhain yn cynnwys:

- Cynllun Datblygu Lleol (LDP) Newydd, sy'n nodi ein hamcanion ar gyfer datblygiad a defnydd o dir yn y fwrdeistref sirol hyd at 2033, gan gynnwys yr angen i adeiladu tua 7,500 o gartrefi.
- Bargen Ddinesig Prifddinas-Rhanbarth Caerdydd, y mae'r awdurdod lleol yn rhan ohoni, gyda'r nod o greu 25,000 o swyddi newydd ledled y rhanbarth cyfan a dod â £4bn o fuddsoddiad o'r sector preifat erbyn 2036. Mae'r Fargen Ddinesig yn cynnwys pedair thema strategol sy'n fuddiol i'r fwrdeistref sirol - sgiliau a chyflogaeth, arloesedd, cysylltu yn y rhanbarth a seilwaith.
- Rhaglen gweithlu'r Cymoedd, menter y mae'r awdurdod lleol wedi ymrwymo iddi, ynghyd ag awdurdodau eraill ar draws y De Ddwyrain, sy'n cynnwys cefnogi'r prosiect Neuadd y Dref Maesteg, ynghyd â rhaglenni grant ar gyfer tai a busnes a buddsoddiad twristiaeth ar draws y cymoedd, gan gynnwys y rhaglen Parc Rhanbarthol y Cymoedd gwerth £6.6m.
- Datblygu uwch gynllun ar gyfer adfywio Canol Tref Pen-y-bont ar Ogwr. Bydd hyn yn hyrwyddo nifer o brosiectau mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol i gynyddu ystod a nifer y cyfleusterau yng nghanol y dref, a fydd yn ysgogi bywiogrwydd ac ymdeimlad o le. Bydd hefyd yn annog mwy o ddefnydd o drafnidiaeth gyhoeddus a theithio egnïol, yn darparu cyfleoedd ar gyfer addysg a dysgu ac yn hybu adferiad economaidd canol y dref.
- Gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (RSL) a'r sector preifat i gynyddu cyfleoedd tai cymdeithasol ledled Pen-y-bont ar Ogwr, a chefnogi'r defnydd effeithiol a gorau o'r Grant Tai Cymdeithasol ar gyfer datblygu tai newydd i ddiwallu anghenion tai.

Rydym yn gwybod bod lefelau uwch o ffyniant yn rhoi hwb i iechyd a llesiant ac yn creu cymunedau mwy gwydn sydd angen llai o wasanaethau. Ar gyfer ffyniant yn y dyfodol a gwytnwch hirdymor, mae angen i ganol ein trefi a busnesau ffynnu a bod yn broffidiol i gynhyrchu cyfoeth, cynnig gwell swyddi, denu buddsoddiad, lleihau anweithgarwch economaidd a gwella sgiliau ac annog ymwelwyr.

Byddwn yn gweithio tuag at egwyddorion y model economi sylfaen - swyddi gwell yn agosach i adref a fydd yn meithrin ac yn tyfu economïau lleol drwy sbarduno cyflogaeth ystyrlon mewn cymunedau sydd â lefelau uchel o ddiweithdra. Byddwn yn ceisio rhoi hwb i ddatblygiad economaidd ledled y Fwrdeistref Sirol drwy ystod o weithgareddau gan gynnwys datblygu hybiau menter a phecynnau cefnogaeth busnes uniongyrchol.

Credwn fod addysg yn parhau i fod y lifer pwysicaf ar gyfer gwella cyfleoedd bywyd a gwytnwch pobl ifanc. Mae ein ffyniant hirdymor yn y dyfodol yn dibynnu ar sgiliau a gwybodaeth ein cymunedau. Arolygodd Estyn (Arolygiaeth ei Mawrhydi dros Addysg a hyfforddiant yng Nghymru) yr awdurdod lleol ym mis Mawrth 2019 dan y fframwaith Arolygu Gwasanaethau Addysg Llywodraeth Leol (LGES) newydd, a gyflwynwyd ym mis Medi 2018. Nododd yr arolwg sawl cryfder gan yr awdurdod lleol wrth gynnig addysg i'w dysgwyr, ond hefyd nodwyd rhai meysydd lle mae angen i ni wella.

O 2017, rhoddodd Llywodraeth Cymru y gorau i gyhoeddi grŵp safonau ar gyfer ysgolion. Yn lle, mae ysgolion bellach yn defnyddio set ehangach o wybodaeth am berfformiad i werthuso sut maen nhw'n gwneud sydd wedi'i nodi yn System ar gyfer Categoreiddio Ysgolion Cenedlaethol Llywodraeth Cymru. https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-01/system-genedlaethol-ar-gyfer-categoreiddio-ysgolion-canllawiau-i-rieni-a-gofalwyr-2.pdf

Ym mis Ionawr 2020, roedd 35 o'n 60 ysgol wedi'u categoreiddio'n wyrdd. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'n cynghorwyr her yng Nghonsortiwm Canolbarth y De i wella canlyniadau dysgwyr a gwella ein hysgolion.

Caewyd ysgolion yn sgil pandemig COVID-19 ym mis Mawrth 2020, ac ail-agorwyd ysgolion ym mis Medi 2020, gyda ffyrdd newydd o addysgu trwy ystafell ddosbarth Google a rhieni yn cefnogi eu plant i barhau ag addysg gartref. Mae dysgu cyfunol wedi dod yn bwysicach fyth i alluogi disgyblion i barhau â'u dysgu ac mae penderfyniad Llywodraeth Cymru i ddefnyddio asesiadau a reolir gan athrawon yn lle arholiadau ar gyfer 2021 yn golygu y bydd adnoddau'n canolbwyntio ar les dysgwyr, gan sicrhau tegwch a gwneud y mwyaf o addysgu a dysgu i fyfyrwyr yn yr amser anodd hwn. Byddwn hefyd yn gwireddu'r Cwricwlwm newydd ar gyfer Cymru, gan gefnogi anghenion amrywiol ein pobl ifanc trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, codi safonau, gwella addysg ar gyfer grwpiau allweddol o ddysgwyr, gan gynnwys y rhai mwyaf agored i niwed gyda chwricwlwm perthnasol yn y byd go iawn i'w harfogi ar gyfer eu bywydau yn y dyfodol.

## Ein meysydd blaenoriaeth i gefnogi'r amcan llesiant hwn

- **Gwella canlyniadau dysgwyr –** I ysbrydoli a chefnogi plant, oedolion a theuluoedd i gyflawni canlyniadau gwell; gan arwain at gymunedau hapus, diogel ac iach sy'n ffynnu.

- **Twf a ffyniant -** Hyrwyddo'r amodau ar gyfer twf a ffyniant drwy gefnogi pobl a busnes i fanteisio ar y cyfleoedd i'w helpu i lwyddo.

## Pwy fydd yn ein helpu ni?

Fforwm Busnes Pen-y-bont ar Ogwr; partneriaid y Fargen Ddinesig; darparwyr hyfforddiant a Choleg Pen-y-bont ar Ogwr; ysgolion; Gyrfa Cymru; Canolfan Byd Gwaith.

## Camau y byddwn yn eu cymryd i gefnogi'r amcan llesiant hwn

| **Er mwyn helpu i wella canlyniadau dysgwyr, byddwn yn** |
|---|
| Cynnal perfformiad da presennol Cyfnod Allweddol 4. |
| Codi safonau llythrennedd mewn ysgolion cynradd. |
| Gwella canlyniadau ar gyfer dysgwyr ôl-16 o fewn y Chweched Dosbarth mewn ysgolion. |
| Asesu effaith cau ysgolion yn sgil COVID19 ar ganlyniadau i ddysgwyr, a chefnogi ysgolion i leddfu anawsterau addysgu a dysgu a ddaeth yn sgil y pandemig. |
| Cefnogi ysgolion i ddarparu amgylcheddau dysgu diogel i bob dysgwr ac aelod staff mewn ysgolion. |
| Cyflawni'r blaenoriaethau a geir yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP) i hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg ac i gynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg i gefnogi Cymraeg 2050. |

| **I gefnogi twf a ffyniant, byddwn yn** |
|---|
| Fel rhan o'r gwaith adfywio i gefnogi twf a ffyniant y fwrdeistref sirol, mae'r datblygiadau allweddol canlynol wedi eu cynllunio:<br>• Ailddatblygu canol trefi ledled y Fwrdeistref Sirol; gan gynnwys cynhyrchu uwchgynllun ar gyfer Canol Tref Pen-y-bont ar Ogwr ac ailddatblygu Neuadd y Dref Maesteg, gan ddarparu gwell cyfleusterau cymunedol gan gynnwys llyfrgell y dref, ardaloedd perfformio, cynnig gwell mynediad i ymwelwyr a chreu swyddi.<br>• Adfywio glannau Porthcawl gan gynnwys datblygu ardal Salt Lake ar gyfer datblygiad cynaliadwy defnydd cymysg o fanwerthu, tai a hamdden |
| Creu canol trefi gwell trwy wella eiddo a'r amgylchedd. Gan gynnwys ceisio cyfleoedd i weithio ar y cyd â rhanddeiliaid allweddol ar gyfer datblygiadau defnydd cymysg sy'n cyfuno, byw, gweithio a gofodau cymdeithasol i ychwanegu bywiogrwydd a hyrwyddo amodau ar gyfer twf a ffyniant. |
| Gweithio gydag unigolion drwy Gyflogadwyedd Pen-y-bont ar Ogwr er mwyn gwella eu cyfleoedd swyddi ac i leihau diffyg gweithgarwch economaidd. |
| Darparu'r seilwaith a'r cymorth cywir i alluogi busnesau i oresgyn effaith sefyllfa COVID19 trwy:<br>• Gefnogi busnesau newydd<br>• Cefnogi gwytnwch busnes - (canolfannau menter)<br>• Datblygu strategaethau caffael i roi hwb i'r economi sylfaenol |
| Gwella profiad ymwelwyr i roi hwb i dwristiaeth yn sgil yr argyfwng COVID19, a hynny drwy:<br>• Wella'r amgylchedd naturiol drwy Barc Rhanbarthol y Cymoedd<br>• Darparu'r rhaglen Ffocws Buddsoddi Tref Porthcawl (PRIF) |

## Sut fyddwn yn gwybod ein bod yn llwyddiannus?

Drwy fonitro ein mesurau llwyddiant, byddwn yn medru cadw golwg ar ein perfformiad er mwyn helpu i wthio gwelliannau er mwyn cyflawni'r canlyniadau canlynol:

### Maes blaenoriaeth: Gwella canlyniadau dysgwyr

| Dangosyddion Llwyddiant | Gwirioneddol 2019-20 | Targed 2020-21 | Targed 2021-22 |
|---|---|---|---|
| Cyfartaledd sgôr 9 wedi'i chapio ar gyfer myfyrwyr Blwyddyn 11. | 362 | 363.0 | Amherthnasol |
| Canran y disgyblion, ar ddiwedd y cyfnod sylfaen, sy'n cyflawni Deilliant 5 neu uwch mewn asesiadau athro ar gyfer Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu mewn Cymraeg a Saesneg. | 83.2% | 85.1% | Amherthnasol |
| Canran y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mewn ysgolion sy'n cael eu cynnal gan yr awdurdod lleol, yn cyflawni'r canlyniadau disgwyliedig mewn Cymraeg/Saesneg iaith gyntaf, fel y pennwyd yn ôl asesiad athro. | 88.6% | 90.2% | Amherthnasol |
| Cyfran y dysgwyr Safon Uwch sy'n cyflawni 3 gradd A* - C. | 55.4% | 55.6% | Amherthnasol |
| Canran y dysgwyr Blwyddyn 1 sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. | 7.58% | 8.7% | 8.7% |

### Maes blaenoriaeth: Twf a ffyniant

| Dangosyddion Llwyddiant | Gwirioneddol 2019-20 | Targed 2020-21 | Targed 2021-22 |
|---|---|---|---|
| Nifer yr eiddo gwag yng nghanol trefi:<br>a) Pen-y-bont ar Ogwr<br>b) Maesteg<br>c) Porthcawl<br>d) Pencoed | a) 65<br>b) 13<br>c) 19<br>d) 7 | Dim targedau | Meincnodi |
| Nifer yr ymwelwyr i ganol trefi ar gyfer<br>a) Pen-y-bont ar Ogwr<br>b) Porthcawl | a) 6.3m<br>b) 2.7m | Dim targedau | Meincnodi |
| Gwerth ariannol prosiectau adfywio canol trefi a ariennir yn allanol sy'n mynd rhagddynt/yn cael eu datblygu | £15m | £13m | £13m |
| Cyfanswm gwariant blynyddol twristiaid. | £362.69m | Amherthnasol | Meincnodi |
| Nifer y busnesau newydd. | 475 | Dim targed | Meincnodi |
| Nifer y cyfranogwyr yn rhaglen Cyflogadwyedd Pen-y-bont ar Ogwr sy'n mynd ymlaen at gyflogaeth. | 334 | 200 | 250 |

# Amcan Llesiant 2

# Helpu cymunedau a phobl i fod yn iachach ac yn fwy gwydn

Mae hyn yn golygu y byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid, gan gynnwys y bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau, i gymryd camau i leihau neu atal pobl rhag dod yn fregus neu'n ddibynnol ar y Cyngor a'i wasanaethau.  Byddwn yn cefnogi unigolion a chymunedau i feithrin gwytnwch, a'u galluogi i ddatblygu datrysiadau er mwyn byw bywydau heini, iach ac annibynnol.

## Ein nodau llesiant

1. Rhoi mwy o ddewis a rheolaeth i bobl dros y gefnogaeth maent yn ei derbyn drwy ddarparu mynediad cynnar i gyngor a gwybodaeth.
2. Lleihau galw drwy help cynnar wedi ei dargedu a rhaglenni ymyrraeth.
3. Datblygu cymunedau mwy heini, iach a gwydn drwy weithio mewn partneriaeth â'r trydydd sector, cynghorau tref a chymuned a grwpiau cymunedol.

## Pam mae'r rhain yn bwysig

Mae gan awdurdodau lleol rôl i'w chwarae wrth helpu unigolion a chymunedau i ddatblygu cyfalaf cymdeithasol.  Mae cydnabyddiaeth gynyddol, er bod gan gymunedau a grwpiau cymdeithasol difreintiedig ystod o anghenion cymhleth a chysylltiedig, mae ganddynt hefyd asedau ar lefel gymdeithasol a chymunedol a all wella iechyd a chryfhau gwytnwch.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gymryd dulliau sy'n seiliedig ar asedau i wella iechyd a meithrin gwytnwch ar gyfer llesiant.  Drwy ymyrryd yn gynnar a chanolbwyntio ar wasanaethau ataliol, gallwn helpu pobl a chymunedau i fod yn fwy annibynnol, yn llai dibynnol ar wasanaethau'r cyngor ac yn fwy tebygol o sicrhau gwell canlyniadau.  Ar y lefel darparu gwasanaeth, mae ymyrraeth amserol a phriodol yn helpu i leihau costau, sy'n helpu i ddiogelu cynaliadwyedd gwasanaeth, yn sicrhau bod y Cyngor yn medru cefnogi'r rheiny sydd â'r angen mwyaf yn effeithiol.

Mae'r ffocws atal a llesiant o fewn y Cyngor wedi caniatáu i asedau fel canolfannau cymunedol i ail-ddylunio'r model gwasanaeth fel eu bod nawr yn cynnig ystod ehangach o wasanaethau sy'n cefnogi gwell iechyd corfforol a llesiant emosiynol.

Cydnabyddir bod effaith gadarnhaol tai ar safonau iechyd a lles cyffredinol yn cyfrannu'n allweddol at y canlyniadau allweddol hyn. Bydd y Cyngor yn gweithio ar y cyd â phartneriaid allanol gan ddarparu dulliau ymatebol, creadigol ac arloesol i atal a lleddfu digartrefedd, gan sicrhau hygyrchedd i lety addas gyda'r gefnogaeth briodol i fodloni deddfwriaeth tai a chanllawiau Llywodraeth Cymru.

Mae eiddo gwag yn wastraff adnodd ac yn gyfle wedi'i golli i wella llesiant  Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i leihau nifer yr eiddo gwag ar draws y fwrdeistref sirol a helpu i gyfrannu at gynyddu argaeledd tai fforddiadwy ar werth neu i'w rhentu o safon. Mae'r buddiannau ychwanegol ehangach yn cynnwys gwella prydferthwch yr amgylchedd lleol, creu cyfleoedd swyddi a hyfforddi.

## Ein meysydd blaenoriaeth i gefnogi'r amcan llesiant hwn

- **Datblygu a gwella cymorth a gwasanaethau cymunedol –** Sicrhau bod cyfleoedd, cymorth a gwasanaethau o safon uchel a llyfn ar waith ar gyfer y rheiny sydd angen ein help er mwyn eu galluogi i barhau i fod yn annibynnol cyn hired ag y bo modd.
- **Meithrin cymunedau gwydn –** Gan weithio gyda'n partneriaid a'n cymunedau, byddwn yn datblygu drwy gyd-gynhyrchu dulliau amgen arloesol a newydd i wella llesiant ac i gefnogi a chynnal darpariaeth. Bydd modelau gwasanaethau newydd yn gynaliadwy ac yn llai dibynnol ar y Cyngor ac yn adlewyrchu symudiad cadarnhaol o ran cyfrifoldeb drwy rymuso sefydliadau eraill a phobl leol.
- **Gwell iechyd a llesiant –** Gwella llesiant corfforol, meddyliol ac emosiynol plant a phobl ifanc a dinasyddion bregus, er mwyn sicrhau eu bod yn medru ffynnu a chyflawni eu potensial.

## Pwy fydd yn ein helpu ni?

Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i helpu i gyflawni ein nodau, yn benodol y GIG, yr Heddlu, Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen, Halo a'r trydydd sector. Yn yr un modd, mae Landlordiaid cymdeithasol cofrestredig (RSLs) a landlordiaid y sector preifat hefyd yn bartneriaid hanfodol.

Rydym hefyd yn gweithio ar y cyd ar sail ranbarthol fel aelodau o Fwrdd Partneriaeth Cwm Taf Morgannwg. Yn ychwanegol, mae ein rhanddeiliaid allweddol, y bobl sy'n defnyddio gofal cymdeithasol, yn chwarae rôl allweddol yn helpu i ddylunio gwasanaethau sy'n bodloni anghenion orau.

## Camau y byddwn yn eu cymryd i gefnogi'r amcan llesiant hwn

| **I ddatblygu a gwella cefnogaeth a gwasanaethau cymunedol, byddwn yn** |
|---|
| Datblygu model gweithredu cynaliadwy ar gyfer gwasanaethau cymunedol integredig gyda Grŵp Ardal Integredig Cwm Taf Morgannwg. |
| Targedu'r defnydd o wasanaethau ymyrraeth yn gynnar i leihau'r galw am wasanaethau statudol. |

| **I feithrin cymunedau gwydn, byddwn yn** |
|---|
| Parhau â'r gostyngiad diogel yn nifer y plant sy'n derbyn gofal a chefnogi plant sy'n derbyn gofal i gyflawni'r canlyniadau gorau posibl trwy:<br>• Sicrhau bod plant sy’n derbyn gofal yn cael eu cefnogi i fyw gyda'u teuluoedd, a phan nad yw hyn yn bosibl, bod cyfleoedd sefydlogrwydd eraill yn cael eu cynnig cyn gynted ag y bo modd.<br>• Sicrhau bod plant sy’n derbyn gofal yn mwynhau'r un cyfleoedd bywyd â phlant eraill. |
| Gweithio mewn partneriaeth â chynghorau tref a chymuned, y trydydd sector a grwpiau cymunedol er mwyn cwblhau trosglwyddiadau asedau cymunedol ac i ddatblygu atebion cynaliadwy, hirdymor i reoli a chynnal cyfleusterau / gwasanaethau. |
| Gweithio gydag aelwydydd a phartneriaid i atal pobl rhag dod yn ddigartref, ac i gefnogi pobl fregus gan gynnwys y rhai sy’n cysgu y tu allan, trwy ddarparu ystod o opsiynau llety sy'n ymateb i'r canllawiau newidiol gan Lywodraeth Cymru fel rhan o ymateb COVID-19. Ceisio cynorthwyo |

| I feithrin cymunedau gwydn, byddwn yn |
|---|
| aelwydydd i drosglwyddo i atebion hirdymor i atal digartrefedd ac uwchgyfeirio i wasanaethau statudol. |
| Gweithio gyda landlordiaid i ddechrau defnyddio eiddo gwag unwaith eto, gan helpu i gynyddu argaeledd tai fforddiadwy sydd ar werth neu i'w rhentu. |

| I gefnogi gwell iechyd a llesiant, byddwn yn |
|---|
| Gwella ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir i unigolion adref drwy ddefnyddio tîm amlddisgyblaethol o amgylch y bobl yn ein Rhwydweithiau Clwstwr Cymunedol, gan sicrhau asesiadau ymatebol ac amserol sydd wedi eu canolbwyntio ar bobl ac sy’n bodloni eu hanghenion.  Bydd hyn hefyd yn gwella ein gallu i ragweld angen y dyfodol ac i sicrhau bod cynlluniau wrth gefn wedi eu paratoi. |
| Ailadeiladu cyfranogiad mewn gweithgareddau hamdden a diwylliannol trwy wella hygyrchedd, cael gwared â rhwystrau i gyfranogiad a chefnogi llesiant unigolion ac adferiad cymunedol COVID-19. |
| Cydweithio â phartneriaid er mwyn datblygu strategaeth iechyd meddwl a chynllun gweithredu i gefnogi plant, pobl ifanc, a phob oedolyn, yn enwedig yn wyneb y straen ychwanegol drom a geir oherwydd Covid-19 a’r cyfnod clo |

## Sut fyddwn yn gwybod ein bod yn llwyddiannus?

Drwy fonitro ein mesurau llwyddiant, byddwn yn medru cadw golwg ar ein perfformiad er mwyn helpu i wthio gwelliannau er mwyn cyflawni'r canlyniadau canlynol:

### Maes Blaenoriaeth: Datblygu a gwella cefnogaeth a gwasanaethau cymunedol

| Dangosyddion Llwyddiant | Gwirioneddol 2019-20 | Targed 2021-21 | Targed 2021-22 |
|---|---|---|---|
| Nifer y bobl 65 oed a hŷn a gyfeirir at y Tîm Adnoddau Cymunedol. | Amherthnasol | 2200 | 2200 |
| Canran o becynnau ail-alluogi wedi eu cwblhau sydd wedi:<br><br>a) Lleihau'r angen am gymorth<br>b) Cynnal yr un lefel o gymorth<br>c) Lliniaru'r angen am gymorth | Amherthnasol | Sefydlu llinell sylfaen | (a) 33%<br>(b) 11%<br>(c) 48% |

## Maes Blaenoriaeth: Creu cymunedau gwydn

| **Dangosyddion Llwyddiant** | **Gwirioneddol 2019-20** | **Targed 2021-21** | **Targed 2021-22** |
|---|---|---|---|
| Nifer yr asedau sy'n eiddo i'r cyngor sydd wedi eu trosglwyddo i'r gymuned eu cynnal. | 4 | 15 | 10 |
| Canran yr aelwydydd a oedd dan fygythiad o ddigartrefedd ond sydd wedi osgoi digartrefedd yn llwyddiannus. | 66.2% | 72% | 60% |
| Canran y bobl sy'n cyflwyno'u hunain yn ddigartref neu fod posib eu bod yn ddigartref, y mae gan yr awdurdod lleol ddyletswydd gyfreithiol i sicrhau llety priodol ar eu cyfer. | 10.51% | 10% | 30% |
| Nifer y tai ychwanegol a grëwyd o ganlyniad i adfer eiddo gwag i'w ddefnyddio unwaith eto. | 20 | 5 | 7 |
| Canran y tai yn y sector preifat a oedd wedi bod yn wag ers dros 6 mis ar 1 Ebrill a gafodd eu meddiannu eto yn ystod y flwyddyn drwy weithredu uniongyrchol gan yr awdurdod lleol. | Amherthnasol | 6% | 6% |
| Nifer y plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal. | 394 | 378 | 371 |
| Canran y rhai sy'n gadael gofal sydd wedi cwblhau o leiaf 3 mis yn olynol o gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant yn y 12 mis ers gadael gofal | Amherthnasol | Sefydlu llinell sylfaen | I'w gadarnhau |
| Canran y rhai sy'n gadael gofal sydd wedi cwblhau o leiaf 3 mis yn olynol o gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant yn y 13-24 mis ers gadael gofal | Amherthnasol | Sefydlu llinell sylfaen | I'w gadarnhau |
| Canran y rhai sy'n gadael gofal sy'n profi digartrefedd yn ystod y flwyddyn (fel y'i diffinnir gan Ddeddf Tai (Cymru) 2014) cyn pen 12 mis ar ôl gadael gofal. | Amherthnasol | Sefydlu llinell sylfaen | I'w gadarnhau |

## Maes Blaenoriaeth: Gwell iechyd a llesiant

| **Dangosyddion Llwyddiant** | **Gwirioneddol 2019-20** | **Targed 2021-21** | **Targed 2021-22** |
|---|---|---|---|
| Canran y cynlluniau cymorth TAF (Tîm o Amgylch y Teulu) a gwblhawyd sydd yn dod i ben â chanlyniad llwyddiannus. | 70% | 68% | 69% |
| Canran yr unigolion sydd mewn gofal a reolir a gefnogir gan y gymuned. | Amherthnasol | 74% | 75% |
| Canran yr unigolion mewn gofal a reolir mewn lleoliad gofal cartref. | Amherthnasol | 26% | 25% |
| Nifer yr unigolion sydd yn ymwneud â rhaglenni targedu neu wedi eu cefnogi gan raglenni targedu, sydd wedi eu cysylltu â chyfleusterau a gwasanaethau hamdden a diwylliannol. | Amherthnasol | Sefydlu llinell sylfaen | Sefydlu llinell sylfaen |
| Nifer y bobl sydd â gwell mynediad i weithgareddau hamdden a diwylliannol oherwydd lleihau cost fel rhwystr rhag cymryd rhan. | Amherthnasol | Sefydlu llinell sylfaen | Sefydlu llinell sylfaen |

# Amcan Llesiant 3

# Gwell defnydd o adnoddau

Mae hyn yn golygu y byddwn yn sicrhau bod ein holl adnoddau (ariannol, ffisegol, ecolegol, dynol a thechnolegol) yn cael eu defnyddio mor effeithiol ac effeithlon ag y bo modd, ac yn cefnogi'r gwaith o greu adnoddau ledled y gymuned a all helpu i ddarparu amcanion llesiant y Cyngor.

## Ein nodau llesiant

1. Sicrhau bod y cyngor yn gynaliadwy'n ariannol dros yr hirdymor.
2. Gwella effeithlonrwydd gwasanaethau, a'r mynediad atynt, drwy ail-ddylunio ein systemau a'n prosesau.
3. Gweithio ar y cyd i wneud y mwyaf o'ch asedau naturiol a ffisegol.
4. Datblygu'r sgiliau a'r diwylliant sydd eu hangen er mwyn bodloni anghenion sefydliad sy'n newid.

## Pam mae'r rhain yn bwysig

Rydym yn cydnabod bod angen i ni barhau i wneud gwell defnydd o'n hadnoddau, ystyried ffyrdd gwahanol o ddarparu gwasanaethau, gwneud mwy o ddefnydd o dechnoleg a gweithio gyda'n partneriaid a'n cymunedau i ddarparu gwasanaethau sy'n gynaliadwy'n ariannol ar gyfer yr hirdymor. Fel hyn, gallwn wneud y mwyaf o'n cyfraniad i gyflawni ein hamcanion llesiant a gwella llesiant ar gyfer ein dinasyddion wrth gyflawni'r arbedion hynny a gynlluniwyd.

Dros y pedair blynedd ddiwethaf, rydym wedi gwneud arbedion cyllidebol o dros £27 miliwn. Mae pandemig COVID-19 nid yn unig wedi arwain at gostau annisgwyl o ryw £9m, ond amcangyfrif o golled incwm o £8m, sy'n rhoi heriau ariannol ychwanegol i ni wrth symud ymlaen. Mae'r heriau hyn yn parhau ac mae'n rhaid i ni wneud arbedion pellach o £22m erbyn 2025. Bydd angen gwneud rhai penderfyniadau mawr ar ba wasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu dros y tymor hwy a sut mae'n gweithio mewn partneriaeth i ddefnyddio a darparu adnoddau yn y ffordd fwyaf effeithiol.

Mae ein staff, a gafodd eu trefnu i gefnogi gwasanaethau hanfodol ar ddechrau'r pandemig, yn parhau i fod yn allweddol i'r ffordd y byddwn yn darparu gwasanaethau yn y dyfodol. Bydd angen i ni gynyddu galluoedd ein gweithlu wrth i'r sefydliad barhau i newid, gan wneud arbedion, wrth hefyd barhau i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol ein dinasyddion, ar adeg o angen cynyddol.

Dros yr hirdymor, mae'r amcan llesiant hwn yn hanfodol ar gyfer cynaliadwyedd gwasanaethau'r cyngor ac ar gyfer yr economi leol. Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed uchelgeisiol i sefydliadau'r sector cyhoeddus fod yn garbon sero net erbyn 2030, mewn 4 maes penodol. Mae'r rhain yn cynnwys defnyddio ynni, trafnidiaeth, adeiladau a mannau agored. Bydd ein huchelgeisiau, ein llinellau sylfaen, a map ffordd o gyflawni hyn, yn rhan o strategaeth datgarboneiddio “Pen-y-bont ar Ogwr 2030”, ac ymgynghorir ar ei drafft yn ystod haf 2021. Y trosglwyddiad i ddatgarboneiddio yw un o'r cyfleoedd datblygu economaidd mwyaf y bydd gan Fwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr am y 30 mlynedd nesaf. Gan weithio ag eraill, mae hefyd angen i ni reoli ein hadnoddau naturiol yn well, ceisio cynnal a gwella bioamrywiaeth yn ogystal â pharhau i ystyried sut yw'r ffordd orau o gael gwared â gwastraff, gyda phwyslais ar leihau, ailddefnyddio ac ailgylchu.

Drwy ein model Landlord Corfforaethol, rydym yn trawsnewid ystâd y cyngor, gyda rhaglen waredidadau barhaus i gael llai o adeiladau, ond rhai gwell, lleihau costau rhedeg ac ôl-groniadau cynnal a chadw, wrth hefyd leihau ein hôl troed carbon.

Drwy gynhyrchu derbyniadau cyfalaf o'n rhaglen gwarediadau, byddwn yn parhau i adeiladu ysgolion newydd a gwella cyflwr adeiladau ein hysgolion presennol er mwyn darparu amgylcheddau dysgu ac addysgu gwell ar gyfer ein disgyblion wrth hefyd wneud y mwyaf o ddefnydd cymunedol o'r cyfleusterau hyn.

Mae ein Strategaeth Ddigidol https://www.bridgend.gov.uk/media/10090/cyngor-bwrdeistref-sirol-pen-y-bont-ar-ogwr-strategaeth-ddigidol-2020-i-2024.pdf yn nodi ein cyfeiriad clir ar yr hyn yr ydym wedi'i gyflawni hyd yn hyn a'r hyn yr ydym yn bwriadu ei gyflawni mewn perthynas â'r Dinesydd Digidol, y Cyngor Digidol a'r Lle Digidol, gan gynnwys cefnogi arferion newydd. Gwelwyd tystiolaeth o hyn wrth gyflwyno offer a meddalwedd i staff ar ddechrau'r pandemig COVID-19 er mwyn i staff allu gweithio'n effeithiol o'u cartref. Mae'r gwaith yn parhau'n gyflym i gynyddu cynhwysiant digidol i'r dinesydd, y cyngor a'r lle, gan gynyddu mynediad at wasanaethau digidol presennol ac arfaethedig. Bydd cynnydd yn cael ei fonitro gan y Bwrdd Trawsnewid Digidol ac adroddir arno bob blwyddyn. Gall cael mynediad at dechnoleg ar gyfer astudio ar-lein hefyd gefnogi canlyniadau cadarnhaol i ddysgwyr. Fel rhan o'r Rhaglen Dysgu yn y Gymru Ddigidol, a ariennir gan Lywodraeth Cymru, bydd £2m yn cael ei fuddsoddi i'n hysgolion i gynnig band llydan cyflym o safon uchel, ynghyd â dyfeisiau defnyddwyr terfynol newydd ar gyfer y dosbarth.

Dros y tymor canolig a'r hirdymor, bydd y cynllun corfforaethol hwn yn canolbwyntio ar y meysydd canlynol o flaenoriaeth er mwyn helpu i ddarparu gwelliannau:

## Ein meysydd blaenoriaeth i gefnogi'r amcan llesiant hwn

- **Trawsnewid ystad y cyngor -** Sicrhau bod ystad y Cyngor yn cael ei ddatblygu'n briodol ac yn cael ei ddefnyddio i wella darpariaeth gwasanaeth, lleihau costau cynnal, lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd a chynnig y lleoliad gorau posib i fodloni anghenion yr holl ddefnyddwyr gan gynnwys dinasyddion.
- **Meysydd o newid corfforaethol -** Byddwn yn addasu ein ffyrdd o weithio er mwyn sicrhau ein bod yn darparu ein hamcanion llesiant yn effeithiol. Bydd cofleidio arloesedd a thechnoleg, datblygu sgiliau a dulliau staff a mabwysiadu ffyrdd amgen o weithio yn sicrhau bod gan y Cyngor y gallu i ymateb i heriau yn y dyfodol.
- **Datgarboneiddio a chynaliadwyedd amgylcheddol -** Rhaglenni gwaith sy'n gwarchod a diogelu'r amgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol drwy leihau ôl troed carbon y Cyngor, sicrhau llai o greu deunyddiau, gwneud mwy o ail-ddefnyddio ac ailgylchu deunyddiau a hyrwyddo ymwybyddiaeth amgylcheddol a chyfrifoldeb gyda'n cymunedau.

## Pwy fydd yn ein helpu ni?

Gweithwyr; Ysgolion; Contractwyr; Undebau Llafur

## Camau y byddwn yn eu cymryd i gyflawni ein hamcan llesiant

| **I drawsnewid ystad y cyngor, byddwn yn** |
|---|
| Lleihau nifer ein hadeiladau trwy:<br>• Gael gwared â, neu ryddhau, adeiladau a thir gwag er mwyn cynhyrchu derbyniadau cyfalaf, i leihau ein hatebolrwydd ariannol, ac i wella'r adeiladau hynny a gadwn.<br>• Manteisio ar y trawsffurfiad digidol o'n gwasanaethau yn sgil COVID19 i adnabod lle gallwn ail-fodelu ein gwasanaethau a lleihau'r angen am le mewn swyddfeydd ar draws ystâd y Cyngor. |
| Sicrhau bod digon o leoedd ar gael mewn ysgolion yn yr ardaloedd cywir drwy ddarparu rhaglen foderneiddio Ysgolion yr 21 Ganrif y cyngor. |

| **I gefnogi meysydd o newid corfforaethol, byddwn yn** |
|---|
| Gweithio gyda'r grŵp darparu rhanbarthol i nodi a chytuno ar fframweithiau caffael rhanbarthol sy'n ateb eu dibenion o ddarparu arbedion maint ar wariant cyffredin ac ailadroddus. |
| Cynnig cymorth i hwyluso newid diwylliannol a sefydliadol. Bydd hyn yn cynnwys ymgysylltu â'r gweithlu; datblygu staff presennol a staff newydd, a gwella gallu sgiliau trwy fuddsoddi yn y rhaglen brentisiaeth gorfforaethol. |
| Gweithredu'r cynlluniau am ostyngiadau cyllidebol fel y nodwyd yn y MTFS, ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020-21 yn benodol, gosod cyllidebau cytbwys blynyddol, a sefydlu datrysiadau sy'n gynaliadwy'n ariannol yn yr hirdymor. |
| Cofleidio a buddsoddi mewn arloesedd a thechnoleg, gan gynnwys gwelliannau mewn cysylltedd a chaffael dyfeisiau defnyddwyr newydd ar gyfer dosbarthiadau ein hysgolion. |
| Addasu ein ffyrdd o weithio i wneud gwell defnydd o'n hasedau ac adeiladu ar y cynnydd technolegol a gyflymwyd gan COVID-19 |

| **I gefnogi datgarboneiddio a chynaliadwyedd amgylcheddol byddwn yn** |
|---|
| Datblygu strategaeth datgarboneiddio gorfforaethol - Pen-y-bont ar Ogwr 2030. |
| Buddsoddi £1.3 miliwn i osod technolegau sy'n arbed ynni a chostau er mwyn lleihau ein defnydd ynni ac allyriadau CO2 |
| Gweithredu cynllun ynni ardal leol gynaliadwy gyda rhaglen waith ledled y fwrdeistref sirol i wella ôl troed carbon ar gyfer yr holl drigolion, gan gynnwys mentrau fel:<br>• Cynllun Gwres Caerau,<br>• Rhwydwaith Gwres Pen-y-bont ar Ogwr |
| Parhau i ragori ar dargedau ailgylchu cenedlaethol a chynyddu cyfleoedd i ailddefnyddio deunyddiau drwy:<br>• adeiladu canolfan ailgylchu cymunedol newydd gyda chanolfan ailddefnyddio,<br>• ailgylchu gwastraff strydoedd,<br>• codi ymwybyddiaeth gyhoeddus o sut i leihau, ailddefnyddio ac ailgylchu drwy ddefnyddio ymgyrchoedd cyhoeddus a chyhoeddusrwydd |
| Cynnal a gwella adnoddau naturiol a bioamrywiaeth Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. |

# Sut fyddwn yn gwybod ein bod yn llwyddiannus?

Drwy fonitro ein mesurau llwyddiant, byddwn yn medru cadw golwg ar ein perfformiad er mwyn helpu i wthio gwelliannau er mwyn cyflawni'r canlyniadau canlynol:

## Maes Blaenoriaeth: Trawsnewid ystad y cyngor

| **Dangosyddion Llwyddiant** | **Gwirioneddol 2019-20** | **Targed 2020-21** | **Targed 2021-22** |
|---|---|---|---|
| Canran y lleoedd gwag mewn ysgolion cynradd. | 9.36% | 10%* | 10%* |
| Canran y lleoedd gwag mewn ysgolion uwchradd. | 20.65% | 18% | 18% |
| Gwireddu targedau derbyniadau cyfalaf. | £794k | £600k | £68 |
| Canran adeiladau gweithredol Bwrdeistref Sirol Penybont-ar-Ogwr sy'n cyflawni cydymffurfiaeth statudol lawn. | 54.6% | 100% | 100% |

*Gosodwyd y targed gan LlC

## Maes Blaenoriaeth: Meysydd o newid corfforaethol


| **Dangosyddion Llwyddiant** | **Gwirioneddol 2019-20** | **Targed 2020-21** | **Targed 2021-22** |
|---|---|---|---|
| Canran y staff sy'n ymgymryd yn yr holiadur staff. | 38.3% | Dim arolwg | 44.5% |
| Canran y gweithwyr sy'n mynychu'r sesiwn friffio staff newydd, fel rhan o'r rhaglen sefydlu gorfforaethol, a nododd ei bod yn rhagorol neu'n dda. | Amherthnasol | Amherthnasol | 80% |
| Y nifer o brentisiaid, ac eithrio athrawon, o fewn yr awdurdod sydd ar raglenni prentisiaeth ffurfiol a chydnabyddedig, i bob 1,000 o aelodau staff. | Amherthnasol | 7.75 (N=35) | (N=35) |
| Canran y gostyngiadau cyllidebol a gyflawnwyd (Cyllideb gyffredinol BCBC). | 89.42% | 100% | 100% |
| Canran yr ardaloedd dysgu dan do mewn ysgolion cynradd sy'n elwa o gysylltiad Wi-Fi cyflym ar gyfer 30+ o ddyfeisiau ar yr un pryd. | Amherthnasol | 100% | 100% |
| Canran yr ardaloedd dysgu dan do mewn ysgolion uwchradd sy'n elwa o gysylltiad Wi-Fi cyflym ar gyfer 30+ o ddyfeisiau ar yr un pryd. | Amherthnasol | 100% | 100% |

## Maes Blaenoriaeth: Datgarboneiddio a chynaliadwyedd amgylcheddol


| **Dangosyddion Llwyddiant** | **Gwirioneddol 2019-20** | **Targed 2020-21** | **Targed 2021-22** |
|---|---|---|---|
| Defnydd nwy blynyddol ar draws yr awdurdod lleol - kWh | Amherthnasol | Sefydlu llinell sylfaen | Sefydlu llinell sylfaen |
| Defnydd trydan blynyddol ar draws yr awdurdod lleol - kWh | Amherthnasol | Sefydlu llinell sylfaen | Sefydlu llinell sylfaen |
| Allyriadau CO2 blynyddol sy'n gysylltiedig â defnydd nwy ar draws yr awdurdod lleol - kWh | Amherthnasol | Sefydlu llinell sylfaen | Sefydlu llinell sylfaen |
| Allyriadau CO2 blynyddol sy'n gysylltiedig â defnydd trydanol ar draws yr awdurdod lleol - kWh | Amherthnasol | Sefydlu llinell sylfaen | Sefydlu llinell sylfaen |
| Cilogramau o wastraff gweddilliol a gynhyrchir y person. | 123.83KG | Dim targed | 120KG |
| Canran y gwastraff sydd wedi ei ailddefnyddio, ailgylchu neu gompostio | 67.66% | Dim targed | 68% |
| Canran y gwastraff:<br>a) ailddefnyddio<br>b) ailgylchu<br>c) compostio | Amherthnasol | Dim targed | a) 1%<br>b) 45%<br>c) 20% |
| Canran y gwastraff glanhau strydoedd sydd wedi ei baratoi i'w ailgylchu. | Amherthnasol | 20% | 20% |
| Ymgymryd â chynlluniau i gynyddu gorchudd coed y Fwrdeistref Sirol | Amherthnasol | 1.5 cynllun | 2 gynllun |
| Darparu cynlluniau bioamrywiaeth cymunedol | Amherthnasol | 1.5 cynllun | 2 gynllun |
| Ymgymryd â phrosiectau Gwella Gwarchodfeydd Natur Lleol | Amherthnasol | 2 brosiect | 2 brosiect |

# Rheoli ein Cyllideb

Mae'r siartiau isod yn amlinellu ein cynlluniau gwario ac incwm ar gyfer 2020-21.  Cyllideb refeniw gros y Cyngor ar gyfer 2020-21 yw £435.4 miliwn.




## LLE MAE'R ARIAN YN CAEL EI WARIO GWARIANT REFENIW GROS 2021-22 (£M)





Sylwer: Mae **Swyddogaethau Traws Cyngor eraill** yn cynnwys Costau Cyllid Cyfalaf, Praeseptau ac Ardollau, Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Cyngor a darpariaeth gorfforaethol ar gyfer tâl a phrisiau. **Gwasanaethau Cymorth Canolog -Prif Weithredwr** -yn cynnwys: Cyllid, Archwilio, AD, TGCh, Cyfreithiol a Democrataidd a Rheoliadol, Tai a Digartrefedd, Etholiadau a Phartneriaethau. **Cymunedau** -yn cynnwys Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu, Adfywio Strategol, Economi, Adnoddau Naturiol a Chynaliadwyedd, Strydoedd Glanach a Rheoli Gwastraff, Landlord Corfforaethol a

Yn ychwanegol i wario arian yn darparu gwasanaethau o ddydd i ddydd, mae'r Cyngor hefyd yn gwario arian ar ddarparu cyfleusterau newydd, gwella asedau a'r seilwaith, gwneud y mwyaf o asedau neu gynnig grantiau cyfalaf i eraill. Mae gwariant cyfalaf a gynlluniwyd ar gyfer 2020-2021 yn cyfateb i £62.363 miliwn.





Mae'r siart (uchod) yn cyflwyno manylion y meysydd gwasanaeth lle y cynllunnir gwariant cyfalaf ac (isod) sut fydd y gwariant yn cael ei ariannu yn ystod y flwyddyn.

## FFYNONELLAU CYLLID CYFALAF 2021-22 (£M)




Mae gan yr awdurdod lleol gyllideb refeniw net o £298.956 miliwn sy'n cefnogi darpariaeth Amcanion Llesiant corfforaethol y Cyngor, gwasanaethau craidd a swyddogaethau statudol. Mae'r gyllideb net wedi ei hariannu gan y Grant Cynnal Refeniw, Graddau Annomestig (NDR) ac incwm Treth y Cyngor. Mae’n eithrio incwm o ffrydiau ariannu eraill fel grantiau'r llywodraeth, derbynebau cleientiaid a chwsmeriaid, a llog sy'n ariannu'r gwariant refeniw gros. Mae'r siart trosodd yn cyflwyno manylion ynghylch sut mae'r gyllideb refeniw net wedi ei dyrannu ar gyfer 2020-21.



CYLLIDEB REFENIW NET YN ÔL AMCAN LLESIANT 2021-22 (£M)
CYLLID AR GYFER GWASANAETHAU CRAIDD A SWYDDOGAETHAU STATUDOL (59.55%), £178.02M
CEFNOGI ECONOMI GYNALIADWY LLWYDDIANNUS (19.1%), £57.31M
HELPU CYMUNEDAU A PHOBL I FOD YN IACHACH AC YN FWY GWYDN (19.84%), £59.31M
GWELL DEFNYDD O ADNODDAU (1.44%), £4.31M

# Democratiaeth a Phartneriaeth

## Sut mae’r Cyngor yn Gweithio

### Y Cyngor

Yn cynnwys 54 cynghorydd yn cynrychioli 39 ward, mae'r Cyngor llawn yn cyfarfod i gymeradwyo polisïau strategaeth allweddol ac i osod cynllun corfforaethol a chyllideb y Cyngor. Mae'r rheolau ynghylch sut mae'r Cyngor yn gweithredu wedi eu hysgrifennu yng nghyfansoddiad y cyngor.




### Y Cabinet

Yn cynnwys chwe chynghorydd ac wedi'i gadeirio gan yr Arweinydd, mae'r Cabinet yn gyfrifol am wneud polisïau a phenderfyniadau sylweddol ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Mae gan bob cynghorydd bortffolio sy'n ymwneud â maes penodol.

### Trosolwg a Chraffu

Yn cynnwys pedwar pwyllgor sy'n edrych ar y penderfyniadau y mae'r Cyngor yn eu gwneud ac yn sicrhau eu bod wedi eu harchwilio'n briodol.

### Ymgynghoriad a Chyfranogiad

Drwy gydol y flwyddyn, rydym yn cynnal ystod o ymgynghoriadau er mwyn llywio penderfyniadau, gan gynnwys ymgynghoriad cyllideb Addas ar gyfer y Dyfodol. Drwy adeiladu ar ein profiad o ymgynghoriadau blaenorol, rydym wedi datblygu ffyrdd newydd i bobl allu cyfrannu a chymryd rhan. Mae ein dulliau yn cynnwys holiaduron, cyfryngau cymdeithasol, hysbysebion radio, fideos esboniadol, cyfarfodydd cynghorau tref a chymuned yn ogystal ag ymgysylltu ag aelodau.

Cynhaliwyd dros 18,000 o ymgysylltiadau yn y flwyddyn 2019-20 trwy wahanol ffyrdd yn amrywio o gwblhau arolygon, rhyngweithio wyneb yn wyneb, digwyddiadau panel dinasyddion ac ymgysylltu ar y cyfryngau cymdeithasol. Gwnaethom ymgysylltu â'r cyhoedd ar ystod o bynciau fel:

- Aildrefnu darpariaeth ôl-16 bosibl
- Ymgynghoriad Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus
- Amcanion Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020 i 2024
- Ymgynghoriad adolygiad teithio i ddysgwyr

Mae aelodau o'r Panel Dinasyddion yn derbyn hyd at dri holiadur y flwyddyn yn ymwneud ag amrywiaeth o feysydd. Maent hefyd yn cael diweddariadau drwy ein cylchlythyr '*Dywedoch chi - Gwnaethom Ni*'.

Rydym hefyd yn ymgysylltu â grwpiau penodol o bobl, fel y rheiny sy'n defnyddio ein gwasanaethau cymdeithasol, i ofyn am eu barn am Gynllun Cyflenwi Gwasanaeth 5 mlynedd Drafft y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles 2020-2025.

Rydym yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo ymgysylltiad yn y gymuned ac eleni rydym wedi gweld dros 79,000 achos o ryngweithio trwy'r dull hwn. Profodd arolygon barn hefyd yn ffordd effeithiol o ymgysylltu â'r cyhoedd yn ogystal â defnyddio fideos i hyrwyddo a gwella ymgysylltiad.

# Gweithio gydag Eraill

- Cafodd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (PSB) Pen-y-bont ar Ogwr ei greu fel rhan o ofyniad cyfreithiol ar gyfer pob awdurdod lleol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r Cyngor yn rhan o grŵp o sefydliadau iechyd, addysg, gofal cymdeithasol a llesiant lleol o'r sector cyhoeddus a'r sectorau nid er elw sy'n gweithio gyda'i gilydd i wella Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'r gwaith yn seiliedig ar gydweithrediad ac ymgynghoriad â chymunedau a phobl leol.
- Yn dilyn Asesiad Llesiant, mae PSB Pen-y-bont ar Ogwr wedi datblygu Cynllun Llesiant i fynd i'r afael â'r materion sy'n dylanwadu ar lesiant hirdymor Pen-y-bont ar Ogwr.
- Mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (RPB) Cwm Taf Morgannwg yn uno iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, tai, y trydydd sector a phartneriaid eraill i gynnig dulliau strategol o ddarparu gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol sydd wedi integreiddio fel y nodwyd yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru (2014)

Mae Hwb Diogelu Aml-Asiantaeth (MASH) Pen-y-bont ar Ogwr yn uno gweithwyr proffesiynol i gynnig gwasanaethau diogelu gan y cyngor a'n partneriaid ar draws y gymuned, mewn un lle. Mae MASH Pen-y-bont ar Ogwr yn cynnwys pobl o'r canlynol:

- Gwasanaethau plant ac oedolion
- Uned diogelwch cyhoeddus Heddlu De Cymru
- Addysg
- Tai
- Tîm cyffuriau ac alcohol cymunedol
- Cyfnod prawf ac adsefydlu cymunedol
- Iechyd
- Gwasanaethau cymorth cynnar
- Gwasanaethau iechyd meddwl

- Mae Gwasanaethau Rheoleiddiol a Rennir yn bartneriaeth gyda Chynghorau Bro Morgannwg a Chaerdydd i gynnig gwasanaethau mwy effeithlon yn cwmpasu Safonau Masnach, Iechyd Amgylcheddol, Trwyddedu a Thai'r Sector Preifat,
- Mae Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Pen-y-bont ar Ogwr yn is-fwrdd i PSB Pen-y-bont ar Ogwr, sy'n uno asiantaethau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol sy'n gweithio gyda'i gilydd i leihau trosedd, anhrefn ac ofn o droseddau.
- Mae Gwasanaeth Archwilio Mewnol y Cyngor wedi ei ddarparu dan gytundeb cydweithredol ffurfiol gyda Chyngor Bro Morgannwg ers 2013. O fis Ebrill 2019, mae Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol a Rennir wedi bodoli, yn uno Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a'r gwasanaeth presennol a rennir. Mae gwasanaeth Archwilio Mewnol effeithlon yn cynnig sicrwydd annibynnol bod prosesau rheoli risg, llywodraethu a rheolaeth fewnol y Cyngor yn gweithredu'n effeithiol.
- Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â GLL/Hamdden Halo i reoli wyth canolfan hamdden a phwll nofio. Mae gennym bartneriaeth hirdymor gydag Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen redeg ein lleoliadau a gwasanaethau diwylliannol ers 20 mlynedd. Mae hyn yn cynnwys gwasanaeth llyfrgell Pen-y-bont ar Ogwr, neuadd y Dref Maesteg, Pafiliwn y Grand Porthcawl, pedair canolfan gymunedol a Thŷ a Pharc Gwledig Bryngarw.
- Rydym yn un o ddeg awdurdod lleol yn Ne Ddwyrain Cymru sy'n rhan o Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd <https://www.cardiffcapitalregion.wales/>, sy'n rhaglen i ysgogi twf economaidd sylweddol yn y rhanbarth..

# Adborth

Rydym yn croesawu eich sylwadau ar y Cynllun Corfforaethol hwn a'ch argymhellion er mwyn gwella. Gallwch gyflwyno eich adborth drwy

Ein gwefan: www.bridgend.gov.uk

Instagram: www.instagram.com/BridgendCBC/

Facebook: www.facebook.com/BridgendCBC
<http://www.facebook.com/BridendCBC>

Twitter: @BridgendCBC

E-bost: talktous@bridgend.gov.uk

Neu drwy ysgrifennu at Tîm Perfformiad Corfforaethol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Raven’s Court, Brewery Lane, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 4WB

Mae'r adroddiad hwn ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae hefyd ar gael mewn iaith neu ffurf arall ar gais.